

## Siarter Diogelwch a Lles

Fel rhan o'n hymateb parhaus i bandemig COVID, rydym yn parhau i asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig ag archwiliadau ffisegol ar bob math o eiddo.

Cafodd ein **Proses archebu** a'n **Hasesiadau Risg Deinamig** ar safleoedd eu cynllunio i'n helpu ni i adnabod a lliniaru'r risgiau i breswylwyr ac i syrfewyr sy'n gysylltiedig ag archwiliadau eiddo.

### Amodau ar gyfer archwiliad

Er mwyn i archwiliad gael ei gynnal, rhaid i ni fynnu bod **pob eiddo'n wag trwy gydol yr archwiliad**. Mae hyn yn berthnasol i bob math o archwiliad - prisio ac arolygon.

### Asesiad Risg Deinamig

Wrth gyrraedd yr eiddo, bydd ein syrfewr yn cynnal Asesiad Risg Deinamig ac efallai y bydd yn gofyn ambell gwestiwn i chi er mwyn sicrhau diogelwch a lles pawb yn yr eiddo. Os bydd y syrfewr yn canfod lefel risg annerbyniol (e.e. pellter cymdeithasol ddim yn cael ei gadw), bydd yr archwiliad yn dod i ben ac yn cael ei aildrefnu ar ddyddiad arall.

### Cyn yr archwiliad

Cyn pob archwiliad, byddwn yn gofyn i'n syrfewyr a phob preswilydd gymryd camau ychwanegol er mwyn bod yn ofalus:



Bydd ein syrfewr yn cysylltu â chi tua 30 munud cyn cyrraedd er mwyn cadarnhau'r apwyntiad. Bydd gofyn i chi gadarnhau y bydd yr eiddo'n wag trwy gydol yr archwiliad



Cyn i'r syrfewr gyrraedd, awyrwch yr eiddo trwy agor yr holl ffenestri, os oes modd



Er mwyn i lai o arwynebeddau gael eu cyffwrdd:

- rhaid sychu pob handlen drws mewnol ac allanol yn lân
- dylid agor pob drws ac agoriadau i lofftydd, gan gynnwys drysau unrhyw gypyrddau dan staer a chypyrddau crasu
- rhowch y golau ymlaen ym mhob ystafell.



Cadwch unrhyw gathod a chŵn gyda chi trwy gydol yr archwiliad

## Yn ystod yr archwiliad



Pan fydd y syrfëwr yn cyrraedd, gofynnir i chi fynd allan o'r eiddo, cadw at y rheol pellter cymdeithasol dwy fetr, a gwisgo gorchudd wyneb drwy'r amser.



Bydd ein syrfëwr yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol, neu PPE (mwigwd wyneb a menig tafladwy) wrth gynnal archwiliadau, bydd yn defnyddio clytiau diheintio i lanhau cyfarpar, a bydd yn defnyddio diheintydd dwylo trwy gydol y dydd



Bydd y syrfëwr yn cynnal yr hyn a elwir yn 'asesiad risg deinamig neu weledol' pan fydd yn cyrraedd a gall atal yr archwiliad os bydd yn teimlo bod unrhyw risg.



Mae'n debyg y bydd y syrfëwr yn yr eiddo am tua 30 munud, ond gall fod gyda chi am fwy o amser, yn dibynnu ar nodweddion yr eiddo.



Caniatewch amser i'r syrfëwr baratoi'r holl PPE / cyfarpar cyn yr archwiliad ac ar gyfer glanhau a diheintio popeth ar ôl yr archwiliad



Peidiwch â theimlo'n chwithig, ond ni fydd ein syrfewyr yn gallu derbyn diodydd yn ystod yr archwiliad



Unwaith eto, er mwyn i lai o arwynebeddau gael eu cyffwrdd, ni fydd y syrfëwr yn cau unrhyw ddrysau wrth adael eich eiddo, ond bydd yn rhoi gwybod i chi pan fydd yn gadael.